OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1086 (Cy.115)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

*Wedi'u gwneud - - 28 Mawrth 2007*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) ynghyd â'r pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 100 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**), ac yntau wedi ymgynghori fel sy'n ofynnol gan adran 100(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 a daw'r Rheoliadau hyn i rym —

(a) at ddibenion —

(i) y rheoliad hwn;

(ii) rheoliad 2;

(iii) Rhan 6;

(iv) paragraffau (1), (5) i (8), (10) i (13), (15), (18), (19) a (21) i (23) o reoliad 40;

(v) paragraffau (1), (5), (6) (7) ac (11) i (13) o reoliad 41; a

(vi) rheoliad 43,

(**1**) 1989 p.42; diwygiwyd adran 18 gan Ddeddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 (p.29), Atodlen 4, paragraff 37; Deddf Addysg 1996 (p.56), Atodlen 37, paragraff 97; a Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22), adran 99.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) 2000 p.22; yn rhinwedd adran 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae adran 105 yn effeithiol, pan yw'n gymwys o ran Cymru, fel pe rhoddid yn lle unrhyw gyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

ar 1 Mehefin 2007; a

(b) at bob diben arall, ar y diwrnod sydd bedwar mis ar ôl y diwrnod y mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Panel, yn unol â rheoliad 39(1), yn dod i law Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â rheoliad 34.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "adroddiad atodol" ("*supplementary report*") yw adroddiad a gynhyrchir gan y Panel yn unol â rheoliad 36 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "adroddiad blynyddol" ("*annual report*") yw adroddiad a gynhyrchir gan y Panel yn unol â rheoliad 35 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "adroddiad cychwynnol" ("*initial report*") yw'r adroddiad a gynhyrchir gan y Panel yn unol â rheoliad 34;

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys, mewn perthynas â Rhannau 2 i 5 o'r Rheoliadau hyn ac oni fynegir yn benodol fel arall, aelod cyfetholedig, aelod o bwyllgor neu aelod o is-bwyllgor;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*") o ran awdurdod yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond —

(a) sy'n aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu o is-bwyllgorau'r awdurdod; neu

(b) sy'n aelod o unrhyw un o gyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol" ("*National Park Authority*") yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**4**);

ystyr "awdurdod tân ac achub" ("*fire and rescue authority*") yw awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu drwy gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo(**5**);

ystyr "blwyddyn" ("*year*") —

(a) at ddibenion rheoliad 28(2), yw cyfnod o ddeuddeng mis;

(b) at ddibenion rheoliad 29(1), yw unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis yn dod i ben ar 31 Rhagfyr; ac

(c) at bob diben arall —

(i) yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn unol â rheoliad 1(1)(b) ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009; a

(ii) yw unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth ar ôl hynny;

ystyr "bwrdd" ("*board*") yw pwyllgor awdurdod a sefydlwyd o dan rheoliad 4 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007(**6**);

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw cynllun talu lwfansau a wnaed yn unol â Rhannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn;

(**4**) 1995 p.25.
(**5**) 2004 p.21.
(**6**) O.S. 2007/397 (Cy.43).

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**7**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "dyletswydd a gymeradwywyd" ("*approved duty*") yw —

(a) presenoldeb mewn un o gyfarfodydd yr awdurdod neu o bwyllgorau'r awdurdod neu un o gyfarfodydd unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu un o gyfarfodydd unrhyw un o bwyllgorau corff o'r fath;

(b) presenoldeb mewn un o gyfarfodydd unrhyw gymdeithas awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni;

(c) presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall y mae'r awdurdod neu un o bwyllgorau'r awdurdod neu un o gyd-bwyllgorau'r awdurdod ynghyd ag un awdurdod arall neu fwy yn awdurdodi ei gynnal;

(ch) dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddiben cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni pan fydd gan yr awdurdod ar waith drefniadau gweithredol o fewn ystyr Rhan II o Ddeddf 2000;

(d) dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;

(dd) dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo arolygu mangreoedd neu awdurdodi eu harolygu;

(e) presenoldeb mewn unrhyw achlysur hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu gan weithrediaeth neu fwrdd yr awdurdod; ac

(h) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall mewn dosbarth a gymeradwyir felly, a honno'n ddyletswydd yr ymgymerir â hi at ddiben cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni;

ystyr "gweithrediaeth" ("*executive*") yw gweithrediaeth awdurdod ar ffurf a bennir yn adran 11(2) i (5) o Ddeddf 2000;

mae i'r ymadrodd "lwfans aelodau cyfetholedig" ("*co-optees' allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans cyfrifoldeb arbennig" ("*special responsibility allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans gofal" ("*care allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans sylfaenol" ("*basic allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans teithio a chynhaliaeth" ("*travelling and subsistence allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 15 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Panel" ("*Panel*") yw'r panel a sefydlir yn unol â Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn;

mae "pwyllgor" ("*committee*") yn cynnwys is-bwyllgor;

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 2002(**8**);

(**7**) 1972 p.70.
(**8**) O.S. 2002/1895 (Cy.196).

ystyr "Rheoliadau Awdurdod Tân ac Achub" ("*Fire and Rescue Authority Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004(**9**);

mae i'r ymadrodd "swyddog priodol" yr ystyr sydd i "*proper officer*" yn adran 270(3) o Ddeddf 1972;

ystyr "trefniadau amgen" ("*alternative arrangements*") yw trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdod sy'n swyddogaethau o fath a ddisgrifir yn adran 32(1) o Ddeddf 2000; ac

mae i'r ymadrodd "trefniadau gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "*executive arrangements*" gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.

**Awdurdodau perthnasol rhagnodedig**

**3.** Rhagnodir awdurdodau'n awdurdodau perthnasol at ddibenion adran 100(1)(b) ac (c) o Ddeddf 2000.

# RHAN 2

## Cynlluniau Lwfansau Aelodau

**Dehongli**

**4.** Bydd tymor mewn swydd aelod awdurdod sy'n gynghorydd yn cychwyn ar y dyddiad y bydd yr aelod hwnnw'n gwneud datganiad i dderbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.

**Cynlluniau Lwfansau**

**5.**—(1) Rhaid i awdurdod wneud cynllun yn unol â'r Rheoliadau hyn ar gyfer talu lwfansau mewn cysylltiad â phob blwyddyn.

(2) Pan ddirymir cynllun yn unol â rheoliad 6(1), rhaid i awdurdod, cyn i'r dirymiad gymryd effaith, wneud cynllun pellach ar gyfer y cyfnod sy'n cychwyn ar y dyddiad y bydd y dirymiad yn cymryd effaith.

**Diwygio Cynlluniau**

**6.**—(1) Caniateir diwygio neu ddirymu cynllun a wneir o dan y Rhan hon ar unrhyw adeg.

(2) Os yw diwygiad i'w wneud a hwnnw'n ddiwygiad sy'n effeithio ar lwfans sy'n daladwy am y flwyddyn y gwneir y diwygiad ynddi, caiff y cynllun ddarparu i'r hawl i'r cyfryw lwfans fod yn gymwys gydag effaith o ddechrau'r flwyddyn y gwneir y diwygiad ynddi, ac os yw'r diwygiad yn effeithio ar lwfans sylfaenol neu lwfans cyfrifoldeb arbennig mewn perthynas â phob un o'r cyfnodau —

(a) yn cychwyn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ac yn gorffen ar y diwrnod cyn y diwrnod y bydd y diwygiad cyntaf yn y flwyddyn honno'n cymryd effaith, a

(b) yn cychwyn ar y diwrnod y bydd diwygiad yn cymryd effaith ac yn gorffen y diwrnod cyn y dyddiad y bydd y diwygiad nesaf yn cymryd effaith, neu (os nad oes un) ar ddiwrnod olaf y flwyddyn,

bydd yr hawl i'r cyfryw lwfans yn hawl i daliad o'r cyfryw gyfran o swm y lwfans o dan y cynllun fel y mae'n effeithiol yn ystod y cyfnod perthnasol ag sy'n cynrychioli nifer y dyddiau yn y cyfnod fel cyfran o nifer y dyddiau yn y flwyddyn.

(**9**) O.S. 2004/2555 (Cy.227) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2929 (Cy.214).

**Lwfansau sylfaenol**

**7.**—(1) Rhaid i gynllun a wneir o dan y Rhan hon ddarparu ar gyfer talu lwfans ("lwfans sylfaenol") am bob blwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi i bob aelod o'r awdurdod sy'n gynghorydd a rhaid i swm y cyfryw lwfans fod yr un swm i bob aelod o'r fath.

(2) O ran lwfans sylfaenol, ni chaniateir i swm y mae gan bob aelod awdurdod sy'n gynghorydd hawl iddo, yn ddarostyngedig i reoliad 11 a pharagraffau (1) i (3) o reoliad 12, fod yn fwy na'r swm a ragnodir gan y Panel mewn cysylltiad â'r awdurdod hwnnw —

(a) ac eithrio pan fydd is-baragraff (b) yn gymwys, yn yr adroddiad cychwynnol yn unol â rheoliad 34(1)(b)(i);

(b) mewn adroddiad atodol, y mae darpariaethau perthnasol yr adroddiad yn gymwys ar y pryd.

(3) Rhaid i gynllun ddarparu, pan fydd tymor mewn swydd aelod yn cychwyn neu'n gorffen ar ddyddiad ac eithrio dechrau neu ddiwedd y flwyddyn, y bydd hawl yr aelod hwnnw'n hawl i daliad o'r cyfryw gyfran o'r lwfans sylfaenol ag sy'n cynrychioli nifer y dyddiau y pery tymor mewn swydd yr aelod fel cynghorydd yn ystod y flwyddyn honno fel cyfran o nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

(4) Os caiff cynllun ei ddiwygio fel a grybwyllir ym mharagraff (2) o reoliad 6 ac nad yw tymor mewn swydd aelod sy'n gynghorydd yn para trwy gydol y cyfan o'r cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b) o'r paragraff hwnnw, rhaid i'r cynllun ddarparu bod hawl unrhyw aelod o'r fath o dan y rheoliad hwn yn hawl i daliad o'r cyfryw gyfran o'r lwfans sylfaenol ag sy'n gymwys i bob cyfnod o'r fath ag sy'n cynrychioli nifer y dyddiau y pery tymor mewn swydd yr aelod yn y cyfnod hwnnw fel cyfran o nifer y dyddiau yn y cyfnod.

(5) Rhaid i gynllun a wneir o dan y Rhan hon ddarparu nad oes mwy nag un lwfans sylfaenol yn daladwy i aelod o awdurdod.

(6) Rhaid i gynllun bennu bod yn rhaid i'r awdurdod, pan fydd aelod wedi'i atal dros dro neu'n rhannol ei atal dros dro rhag cyflawni cyfrifoldebau neu ddyletswyddau'r aelod hwnnw fel aelod o'r awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu reoliadau a wneir o dan y Rhan honno, wrthod talu'r rhan honno o lwfans sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn cysylltiad â'r cyfrifoldebau neu ddyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi ei atal dros dro neu'n rhannol rhag eu cyflawni.

**Lwfansau cyfrifoldeb arbennig**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5) caiff cynllun a wneir o dan y Rhan hon ddarparu ar gyfer talu am bob blwyddyn y mae'r cynllun yn gysylltiedig â hi lwfans ("lwfans cyfrifoldeb arbennig") i'r cyfryw aelodau o'r awdurdod ag sy'n gynghorwyr ac sydd â'r cyfryw gyfrifoldebau arbennig mewn cysylltiad â'r awdurdod hwnnw ag —

(a) a ragnodir gan y Panel mewn cysylltiad â'r awdurdod hwnnw

(i) yn yr adroddiad cychwynnol; neu

(ii) mewn unrhyw adroddiad atodol; a

(b) a bennir yn y cynllun.

(2) Ni chaniateir talu lwfans cyfrifoldeb arbennig i fwy na hanner cant y cant o aelodau'r awdurdod (canran a gyfrifir drwy ddefnyddio cyfanswm nifer y seddau ar yr awdurdod a thrwy dalgrynnu i fyny nifer yr aelodau i'r Rhif cyfan nesaf pan nad yw'r Rhif , o gyfrifo'r ganran, yn Rhif cyfan).

(3) Ni chaiff y swm y mae hawl iddo o ran cyfrifoldeb arbennig a hynny ar ffurf lwfans cyfrifoldeb arbennig sy'n daladwy gan awdurdod, yn ddarostyngedig i reoliad 11 a pharagraffau (1) i (3) o reoliad 12, fod yn fwy na'r swm a ragnodir gan y Panel mewn cysylltiad â'r cyfrifoldeb arbennig hwnnw ac â'r awdurdod hwnnw —